# Cyfarwyddyd

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

# Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM

## Put Yr ymgyrch i gadw cnydau GM allan o Gymru

## Cyflwyniad

---

**Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl**

**Cyfeillion y Ddaear Cymru:**

- **yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru**
- **yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG**
- **yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir**
- **yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru**
- **yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm**

**I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051**

**Cyfeillion y Ddaear Cymru**
**33 Oriel Arcêd y Castell Caerdydd CF10 1BY**
**Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebost cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk**
Cyfeillion y Ddaear Cyfyngedig Cofrestrwyd yn Llundain Rhif 1012357
Swyddfa Gofrestredig 26-28 Underwood Street Llundain N1 7JQ
Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr o wastraff defnyddwyr
Medi 2002

# Cyflwyniad

**Bu Cyfeillion y Ddaear yn ymgyrchu yn erbyn tyfu cnydau sydd wedi eu haddasu'n enetig (GM) (BLWCH 1 am gyflwyniad) yn y DG ers 1997. Mae gan y grwp amryw bryderon ynglyn â diogelwch y cnydau, a'u heffaith posib ar yr amgylchedd a iechyd dynol. Nid dim ond amgylcheddwyr sydd â'r pryderon hyn ond hefyd grwpiau sy'n ymgyrchu ar ddatblygiad rhyngwladol a chyrff cynyddol o wyddonwyr (BLYCHAU 1a a 2). Mae'r brîff hwn yn rhoi yn bennaf adroddiad hanesyddol o ymgyrch Cyfeillion y Ddaear Cymru am Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM. Mae rhagor o wybodaeth am y sefyllfa bresennol i'w chael gan Gyfeillion y Ddaear Cymru.**

Mae gwyddoniaeth GM yn newydd ac yn anghyflawn ac mae'r arbrofion gwyddonol i brofi ei ddiogelwch wedi eu cynnal hyd yma gan y cwmnïau biotechnoleg eu hunain. Mae sawl sylwebydd yn honni bod angen i'r arbrofion hyn gael eu profi'n annibynnol. Yn ddiweddar, archwiliwyd rhai profion a gynhaliwyd gan y cwmnïau biotechnoleg mewn gwrandawiad cyhoeddus a chawsant eu beirniadu'n helaeth (gweler Blwch 6, tudalen 5).

Pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, dechreuodd Cyfeillion y Ddaear Cymru ar ei ymgyrch i berswadio'r Cynulliad i wrthod tyfu cnydau GM yng Nghymru. Ymchwiliodd y grwp i hyd a lled cyfreithiol grymoedd y Cynulliad ac astudio'r achos gwyddonol cynyddol yn erbyn rhyddhau cnydau GM i'r amgylchedd. Dangosodd hyn y gallai'r Cynulliad weithredu i rwystro rhai o'r cnydau hyn rhag cael eu tyfu yng Nghymru. Yna lansiodd Cyfeillion y Ddaear Cymru ei ymgyrch am Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM, gan awgrymu y dylai ffermio organig ac amgylcheddol sensitif gymryd blaenoriaeth.

O fewn blwyddyn roedd yr ymgyrch wedi dadlau'n llwyddiannus achos cyfreithiol a gwyddonol manwl i'r Cynulliad, ac wedi perswadio aelodau o bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad i

### BLWCH 1: Beth yw Addasiad Genetig?

Mae gan bob organeb byw gasgliad penodol o gyfarwyddiadau ar folecwl hir cymhleth a elwir yn DNA sy'n nodi sut y maent yn byw, yn tyfu ac yn datblygu. Mae'r DNA wedi ei wneud o adrannau bychan, yn rheoli gwahanol agweddau o dwf yr organeb a'i nodweddion, a elwir yn enynnau. Gall organebau syml megis bacteria fod ag ychydig filoedd o enynnau; gall organebau cymhleth gael llawer mwy – er enghraifft, mae gan india corn oddeutu 50,000 o enynnau. Mewn addasiad genetig caiff y DNA ei dorri i fyny, a symudir genynnau o un organeb i un arall.

Planhigion ac anifeiliaid sydd wedi eu haddasu yn y modd hwn yw organebau GM. Mae hyn yn newid y ffordd y mae organeb yn datblygu, gan wneud mathau newydd o blanhigion ac anifeiliaid. Er enghraifft mae rhai planhigion cnydau wedi eu haddasu i wrthsefyll rhai chwynladdwyr a phlâu.

Nid yw addasiad genetig yn broses trachywir gan fod y dechnoleg yn dal i fod yn gymharol newydd. Nid yw gwyddonwyr yn gwir ddeall nac yn gwybod beth sy'n digwydd pan eu bod yn cyfuno genynnau gyda DNA organeb arall. Gall mwy nag un copi o'r genyn gael ei osod i mewn, gall genynnau eraill gael eu 'diffodd' neu gall y genynnau amrywio yn y modd y maent yn gweithio. Mae'r ddealltwriaeth o sut mae DNA a genynnau'n gweithio'n dal i fod yn wael iawn ar gyfer y rhan fwyaf o blanhigion ac anifeiliaid. Ni wyr neb beth y mae'r rhelyw o enynnau'n wneud na sut y maent yn rhyngweithio. Y ffaith yw, mae technegau addasu genetig presennol yn dal heb eu profi ac yn arbrofol iawn, yn chwarae gyda systemau biolegol y gwyddom ni fawr ddim amdanynt. Yn wir, siaradodd Ymgynghorydd Gwyddonol newydd i Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig gyda'r BBC ym mis Gorffennaf 2002 am yr angen am fwy o ymchwil i ddiogelwch cnydau GM (Blwch 1a)

gefnogi y galw am bolisi yn cyfyngu cnydau GM. Mabwysiadodd y Cynulliad y polisi'n unfrydol oedd yn fuddugoliaeth ddemocrataidd i Gyfeillion y Ddaear Cymru. Nododd hyn gam arwyddocaol cyntaf tuag at Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM. Bydd y ddalen briffio yma'n amlinellu'r cefndir y tu ôl i'r ymgyrch bwysig yma i ddangos sut y cafwyd y llwyddiant polisi mawr yma. Bu canlyniadau hyn yn bell gyrhaeddgar ac maent yn parhau i ddiogelu amgylchedd Cymru heddiw.

**BLWCH 1a** Mae'r Athro Howard Dalton, Prif Ymgynghorydd Gwyddonol i Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn son am ei "ofidiau ein bod yn symud genynnau penodol, un ar y tro yn aml o'i gymharu â'r miloedd a'r filoedd sy'n symud yn y broses fridio arferol. Yr hyn na wyddom yw y goblygiadau y gall un genyn dieithr ei gael ar broteinau eraill yn neunydd y planhigyn sy'n derbyn" wrth y BBC, Gorffennaf 2002.

Bu hyn fwyaf amlwg yn 2002, pan na chyhoeddwyd yr un treial o gnydau GM ar gyfer Cymru. I gynnal statws Cymru'n Rhydd o GM bydd angen mwy o waith a dewrder gwleidyddol yn y Cynulliad. Nid sefydlu'r polisi hwn yw unig tan yr ymgyrch hon. Ceisiwyd cynnal sawl treial GM, rhai wedi eu cwblhau, yng Nghymru, ac mae Cyfeillion y DDaear Cymru wedi gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon posib i amgylchedd Cymru. Mae cronoleg yr ymgyrch yng nghefn y daflen briffio hon yn son yn fyr am y materion hyn. Mae briffiau manylach ar effaith bosib cnydau a thechnoleg GM ar iechyd dynol a'r amgylchedd i'w cael gan Gyfeillion y Ddaear Cymru

**BLWCH 2** "Ni allwn ar hyn o bryd wybod os oes yna unrhyw beryglon difrifol i'r amgylchedd neu i iechyd dynol ynghlwm â chynhyrchu cnydau GM nac o fwyta bwydydd GM ... bydd yr effeithiau andwyol yn debygol o fod yn anwrthdroadwy" Cymdeithas

## Yr Ymgyrch

Lansiwyd ymgyrch Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM ym mis Gorffennaf 1999 yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol. Nodau'r ymgyrch oedd 'perswadio Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ymarfer ei rym i sicrhau na fydd yn caniatáu rhyddhau cnydau GM i Amgylchedd Cymru oni bai ei fod yn fodlon y byddai gwneud hynny'n ddiogel i iechyd dynol a'r amgylchedd; ac i hyrwyddo arferion ffermio a chynnyrch bwyd organig a sensitif i'r amgylchedd." Seiliwyd hyn ar y dadansoddiad cyfreithiol o rymoedd y Cynulliad.

Dynododd llythyr gan Gyfeillion y Ddaear i'r Western Mail, wedi ei gydarwyddo gan 18 o fudiadau eraill yn cynrychioli coalisiwn eang o fuddiannau o'r sectorau busnes a gwirfoddol yng Nghymru y lansiad. Arwyddodd tri Arweinydd yr hyn oedd bryd hynny'n wrthbleidiau yn y Cynulliad (Mike German, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Dafydd Wigley, Plaid Cymru a Nick Bourne, Ceidwadwyr Cymru) yn cefnogi. Hefyd lansiwyd deiseb yn cefnogi nodau'r ymgyrch. Rhoddodd grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear Cymru gyhoeddusrwydd eang i'r ddeiseb ac fe'i cyflwynwyd i'r Cynulliad gyda dros 10,500 o enwau. Cododd y ffigur yma i dros 11,000 gyda deisebau a anfonwyd yn ddiweddarach.

## Trafodaethau Cyfreithiol

Tra ei bod yn amlwg bod nifer o Aelodau'r Cynulliad (AC) yn cefnogi egwyddor yr ymgyrch, roedd ychydig o gymhlethdod ynglyn â gwir rymoedd y Cynulliad i gyfyngu ar blannu cnydau GM. Roedd hyn oherwydd bod cyngor cyfreithiol gan swyddogion y Cynulliad yn nodi nad oedd gwaharddiad ar gnydau GM yn bosib yn ôl Cyfraith Ewropeaidd. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru'n amau ansawdd y cyngor cyfreithiol hwn i'r Cynulliad; yn bwysicach, nid yw'r ymgyrch erioed wedi galw am waharddiad llwyr. Mae Cyfraith Ewropeaidd yn caniatáu dwy fath o drwydded i gnydau GM gael eu rhyddhau i'r amgylchedd, trwydded arbrofol (Rhan B) ac un fasnachol (Rhan C) (BLWCH 3). Yng

Nghymru, y prif wahaniaeth rhwng Rhan B a Rhan C yw bod yn rhaid i'r Cynulliad roi cymeradwyaeth i gnwd GM Rhan B i gael ei ryddhau i'r amgylchedd. Nid oes angen i gnydau Rhan C, sydd i fod wedi bod trwy asesiadau diogelwch llym a'r holl sianeli rheoleiddiol, gael cymeradwyaeth y Cynulliad a gallant gael eu plannu unrhyw le yn y DG heb ymgynghoriad. I rwystro'r rhain rhaid i'r Cynulliad gael rhesymau manwl ar gyfer ystyried bod 'GMO (organeb sydd wedi ei addasu'n enetig) yn cynrychioli perygl i iechyd dynol neu'r amgylchedd' (Erthygl 23, Cyfarwyddyd Ewropeaidd 2001/18/EC).

**BLWCH 3 Sut y gellir tyfu cnydau GM yn y DG?**

Mae angen trwydded i ryddhau cnydau GM i'r amgylchedd yn unol â Cyfarwyddyd Ewropeaidd 2001/18/EC, sy'n rhoi trwyddedau ar gyfer rhyddhau dau fath: Mae rhyddhau arbrofol yn derbyn trwydded Rhan B, ac mae rhyddhau masnachol (sy'n caniatáu marchnata) yn derbyn trwydded Rhan C. Mae'r Cyfarwyddyd hefyd yn amlinellu'r broses asesu risg sy'n rhaid i'r cnwd fynd trwyddi cyn cael ei ystyried am drwydded.

Yn 1998, pennwyd bod y weithdrefn asesu risg a ddiffinwyd gan y Cyfarwyddyd yn annigonol i Weinidogion Amgylchedd yr UE. Penderfynasant ymestyn yr ystod o brofion gwyddonol y byddai'n rhaid i gnydau GM eu pasio. Gan NAD OEDD yr asesiadau risgiau blaenorol yn cynnwys y materion eang hyn, argymhellodd un o baneli ymgynghori gwyddonol Llywodraeth y DG, y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhau i'r Amgylchedd (ACRE), arbrofion pellach i gael y wybodaeth hon.

Yna lansiodd Llywodraeth y DG ei rhaglen ar Werthusiadau Fferm Gyfan (FSE), yn y bon arbrawf awyr agored anferth gyda'n cefn gwlad. Nid oedd y cwmnïau oedd y tu ôl i'r cnydau heb eu profi i'r safonau uwch oedd nawr eu hangen, felly talodd y Llywodraeth am brofi diogelwch gydag arian y trethdalwr, tra'n anwybyddu barn y cyhoedd oedd yn bennaf yn erbyn y cnydau. Eto nid oedd diogelwch y cyhoedd a'u heffeithiau ar yr amgylchedd wedi ei sefydlu.

Er enghraifft, mae Aventis, y cwmni biotechnoleg, wedi datblygu india corn sy'n gwrthsefyll chwynladdwr, o'r enw ChardonLL. Mae hwn eisoes wedi derbyn trwydded fasnachol (Rhan C) yn unol â'r Cyfarwyddyd ynghynt yn 1998. Eto nid yw ei effaith ar yr amgylchedd, nac ar anifeiliaid y bwriedir eu bwydo gydag ef (h.y. gwartheg, gan mai bwriad y cnwd yw bwyd anifeiliaid) wedi eu hastudio hyd yn oed, gan nad oedd hyn yn ofyniad cyfreithiol cyn 1998. Dim ond ar ieir a llygod ffrengig y mae wedi ei brofi. Dangosodd asesiadau annibynnol o'r profion hyn bod yr ieir a gafodd eu bwydo mewn profion ar yr india corn GM 'duedd amheus o farw', eto ni archwiliodd ACRE hyn ymhellach. Cyfaddefodd ACRE y 'dylai'r arbrawf gael ei ail ddadansoddi eto' ar Farming Today, Radio 4 ar y 27ain o Ebrill 2002.

Er bod ganddynt drwydded fasnachol, cytunodd Aventis i'w gnwd gael ei ddefnyddio mewn FSE, a phlannwyd rhai yng Nghymru. Mae'r ffaith mai dim ond nawr y mae'r cnwd yn cael ei werthuso i asesu'n fanwl ei effaith ar yr amgylchedd ond yn pwysleisio diffygion y broses gymeradwyo ac

Felly roedd angen i ryddhau arbrofol yng Nghymru gael cymeradwyaeth y Cynulliad ac fe ddarganfyddodd Cyfeillion y Ddaear Cymru y gallai'r Cynulliad reoli'n gyfreithiol ryddhad y mathau arbennig yma o gnydau GM arbrofol drwy beidio a rhoi cymeradwyaeth. Craidd yr ymgyrch oedd nad oedd yn galw am waharddiad ar gnydau GM arbrofol, ond asesiad llawer mwy trwyadl ohonynt. Mae ymgynghorwyr gwyddonol Llywodraeth y DG yn honni bod cnydau GM yn 'ddiogel', eto fe wnânt hyn ar y sail na fu unrhyw dystiolaeth o niwed hyd yma. Roedd yr ymgyrch yn crogi ar y ffaith y gallai'r Cynulliad ofyn am sicrwydd nad oedd cnwd yn 'gallu achosi difrod'. Mae'r sicrwydd yma'n un mwy llym, a hefyd yn un sy'n annhebygol o gael ei roi yn y dyfodol agos, oherwydd diffyg

asesiad gwyddonol annibynnol o'r cnydau hyn.

Eto roedd ymgynghorwyr y Cynulliad yn bendant bod yr ymgyrch yn galw am wahardd, a daeth nifer o lythyrau o'r Cynulliad yn gwadu honiadau Cyfeillion y Ddaear Cymru. I argyhoeddi Llywodraeth y Cynulliad y gallai yn wir rwystro tyfu rhai cnydau GM heb eu gwahardd, comisiynwyd cyfreithwyr annibynnol i edrych ar y sefyllfa gyfreithiol. Y cyfreithwyr hyn oedd Fordham a Gallafent; o Blackstone Chambers (mae Mike Fordham yn un o brif arbenigwyr cyfreithiol ar ddiwygiad barnwrol yn y DG, ble y bydd barnwr yn barnu os oedd penderfyniad Llywodraeth yn un cyfreithiol). Cadarnhaodd eu cyngor farn Cyfeillion y Ddaear Cymru bod gan y Cynulliad y grymoedd i rwystro plannu cnydau GM arbrofol. Cyflwynwyd y farn gyfreithiol hon i Gadeirydd y Pwyllgor Amaeth ar y 9fed o Fawrth 2000, a chadarnhaodd y gallai'r Cynulliad:

'wrthod rhoi caniatad o'r fath [ar gyfer rhyddhau cnydau GM i amgylchedd Cymru] oni bai fod gwybodaeth ddigonol ar gael i'r Cynulliad i'w alluogi i ddod i gasgliad hyderus nad yw'r rhyddhau yn debygol o achosi niwed i amgylchedd Cymru ...' [pwyslais wedi ei ychwanegu].

Mae hyn yn sefydlu hygrededd cyngor cyfreithiol Cyfeillion y Ddaear Cymru dros yr hwnnw a dderbyniodd AC gan eu swyddogion. Y cam nesaf oedd i droi y farn gyfreithiol hon yn gynnig i'r Cynulliad ei drafod, pleidleisio o'i blaid a'i fabwysiadu fel polisi y byddai'n cael ei weithredu a'i gadw ato. Er nad oedd y polisi yn cyfeirio at ryddhau cnydau GM gyda thrwydded fasnachol (h.y. Rhan 3), fe fyddai er hynny'n gam sylweddol at Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM.

Drifftiodd Cyfeillion y Ddaear Cymru gynnig (cynnig GM) i'w roi i'r Cynulliad iddo bleidleisio arno. Defnyddiodd hwn eiriad y farn gyfreithiol annibynnol i sicrhau na fyddai dadleuon pellach ar gyfreithlondeb y polisi yn dilyn. Cyflwynwyd hwn gan AC o'r pedair plaid ar 12 Mai 2000 ac roedd i fod i gael ei drafod ar 24 Mai 2000. Roedd Cyfeillion y Ddaear Cymru yn hyderus o gefnogaeth y tair gwrthblaid ond roedd yn pryderu y byddai arweinyddiaeth Llafur yn gweithredu chwip (BLWCH 4) ar ei aelodau i wrthwynebu'r cynnig.

Ar fore'r 24 o Fai daeth i'r amlwg bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno newidiadau i'r cynniga fyddai'n dinistrio ei bwrpas a'i ystyr bwriedig yn llwyr. Gallai hyn, pe bai wedi ei basio heb sylwi arno, fod wedi agor y Cynulliad i sialens gyfreithiol lwyddiannus. Ymatebodd Cyfeillion y Ddaear Cymru yn gyflym gan annog AC i bleidleisio yn erbyn y newidiadau, ond o blaid y cynnig. Wrth i ddrysau'r siambr drafod agor, dywedodd swyddog gwrthblaid fod Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i bleidleisio o blaid y cynnig, ac y byddai gan yr aelodau meinciau cefn Bleidlais Rydd. Gan fod AC o y pedair plaid wedi cyflwyno'r cynnig, roeddem yn teimlo'n hyderus y cai'r cynnig ei basio, ond eto roeddem yn ochelgar o'r newidiadau.

**BLWCH 4** Mae aelodau pleidiau gwleidyddol ar bob lefel (o fewn llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru a'r DG) o dan y 'Chwip'. Polisi plaid yw hwn a bennir gan eu Harweinwyr, ac yn dweud wrthynt, mewn gwirionedd, sut i bleidleisio mewn cynnig. Caiff i chwip ei gweithredu yn y mwyafrif o achosion. 'Pleidlais Rydd' yw pan gaiff y chwip ei thynnu. Mae hyn yn golygu y gall y gwleidydd bleidleisio ym mha bynnag fodd y mae'n dewis wneud hynny.

Yn ystod yr ymgyrch hon, roedd y weinyddiaeth Llafur mewn lleiafrif, ac roedd y tair gwrthblaid yn gryfach na hwy. Fodd bynnag, roedd Cyfeillion y Ddaear Cymru'n poeni os byddai'r aelodau Llafur dan y chwip, ac y byddai rhai AC allweddol o'r gwrthbleidiau'n absennol, yna gallai'r cynnig fethu oherwydd diffyg y

Ynghyd â thrafodaeth hir ar y cynnig cafwyd protestiadau cryf yn erbyn y newidiadau, ac fe'u

tynnwyd yn ôl. Pan ddaeth y bleidlais roedd hi'n unfrydol o blaid y cynnig, 56 0, pleidlais ysgubol gyda dim ymataliadau na phleidleisiau yn erbyn.

Roedd Cyfeillion y Ddaear Cymru wrth eu bodd. Roedd hyn yn cynrychioli cam sylweddol i'r Cynulliad drwy ddiffinio'n benodol lais Cymru mewn llunio polisi yn y DG. Roedd hefyd yn gam cyntaf tuag at Amgylchedd Cymru yn wirioneddol Rydd o GM. Nid oes dim cnydau GM arbrofol wedi dod i'r Cynulliad am gymeradwyaeth i'w rhyddhau yng Nghymru ers mabwysiadu'r cynnig cyfyngu hwn. Rydym yn argyhoeddedig bod hyn oherwydd nad oes digon o wybodaeth wyddonol ar gael i argyhoeddi'r Cynulliad na fyddai'r cnydau yn gallu o achosi niwed.

## Llwyddiant ymgyrch! Ail Nod.

Mae manteision marchnad o gael dim cnydau GM yng Nghymru wedi eu hyrwyddo'n gyson gan Gyfeillion y Ddaear Cymru. Roedd archfarchnadoedd yn ymateb i bwysau defnyddwyr ac yn tynnu cynnyrch GM oddi ar eu silffoedd ac amcangyfrifwyd bod y galw am gynnyrch organig yn cynyddu o ddeugain y cant. Pwysleisiodd yr ymgyrch hefyd y manteision cadarnhaol ar gyfer Cymru yn hyrwyddo bwyd cyfeillgar i'r amgylchedd wedi ei gynhyrchu'n lleol, gan gynnwys y manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Aeth peth o'r dylanwad tuag at y Pwyllgor Amaeth yn mabwysiadu gweledigaeth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru oedd yn 'wyrdd a glân'ac felly'n cyflawni ail ran nod yr ymgyrch.

**BLWCH 5** "Nid oedd yn arbrawf digon da mewn gwirionedd i seilio prosiect myfyrwyr arno, heb son am ganiatâd marchnata cynnyrch GM." Dr Steven Kestin, Adran Gwyddoniaeth Filfeddygol Glinigol, Prifysgol Bryste, yn gwneud sylwadau ar arbrawf gwyddonol i brofi diogelwch cnwd GM o'r enw ChardonLL, india corn GM wedi ei wneud gan Aventis, 27ain Ebrill 2002, Farming Today This Week, Radio 4.
Beirniadaeth gan Dr Toby Knowles (o Brifysgol Bryste, a Cymrodor o'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol) ar un o'r profion diogelwch:

"Rydym yn poeni'n fawr bod gwyddoniaeth o'r safon yma yn dal i gael ei drafod ar y lefel yma. A dweud y gwir dylid bod wedi sylwi arno ynghynt roedd hyn [y prawf ieir] o safon isel. "

"Diffyg mawr arall yng nghynllun yr astudiaeth yw . . . y dylai trydedd triniaeth fod wedi ei chynnwys fyddai . . . yn caniatáu i chi ganfod nad oedd yr astudiaeth wir yn gweithio"

"Mae'r adroddiad ar y dadansoddiad ystadegol yn annigonol. Nid yw'n glir sut yr ymdriniwyd â'r data." Wedi ei gymryd o Trawsgrifiad Verbatim y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhau i'r Amgylchedd (ACRE) T25 Gwrandawiad India Corn, Chwefror 20fed 2002.

## Beth nesaf?

Erbyn hyn mae gan y Cynulliad bolisi i wrthod cymeradwyo rhyddhau cnydau GM i amgylchedd Cymru, oni bai y gall fod yn hyderus na allant achosi niwed. Ond beth am y cnydau hynny sydd â thrwydded fasnachol (h.y. Rhan C) (BLWCH 3)?

Cnwd o'r fath yw ChardonLL, india corn GM all wrthsefyll chwynladdwr wedi ei wneud gan y cwmni biotechnolegol Aventis. Dangosodd archwiliad annibynnol o'r profion diogelwch ar y cnwd yma bod y profion yn ddiffygiol iawn mewn ansawdd (BLWCH 5). Mae Llywodraeth y DG yn parhau i gefnogi manteision tybiedig y cnydau hyn, ac yn dweud eu bod yn 'ddiogel'. Mae hyn er nad oes tystiolaeth o fod yn ddiogel, dim ond diffyg tystiolaeth o niwed. Eto mae corff cynyddol o dystiolaeth yn casglu, yn dynodi bod gan y cnydau hyn yn bendant y potensial i achosi niwed. Mae Cyfeillion y Ddaear wedi codi pedair her cyfreithiol llwyddiannus dros ymdrechion gan Lywodraeth y DG i dorri'r gyfraith er mantais i gnydau GM.

Mae Llywodraeth y DG wedi ceisio ychwanegu ChardonLL i Restr Hadau Cenedlaethol y DG, a thrwy hyn gallai gael ei farchnata yn y DG, ond methiant fu hyn hyd yn hyn, diolch i Gyfeillion y Ddaear yn galw ar y cyhoedd i brotestio, gan arwain at Wrandawiad Hadau. Daeth y Gwrandawiad hwn â phrofion diogelwch gwyddonol amheus ChardonLL i'r cyhoedd.

Mae Undeb Ffermwyr Cymru yn cytuno gyda Chyfeillion y Ddaear Cymru y gallai Cymru elwa'n economaidd o gael Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM, fel ag y mae'r AC, yn enwedig y rhai cyfredol.

**BLWCH 6** "Byddwn yn . . . ceisio ecsbloetio y cyfleoedd marchnata o adnabod cynnyrch Cymreig fel yn rhydd o GM" Llythyr gan Mike German, Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Tramor, i Owen John Thomas AC, dyddiedig 20fed Mehefin 2002.

Y Gweinidog Amaeth, Mike German, Democrat Ryddfrydol, a chefnogwr allweddol yr ymgyrch pan mewn gwrthblaid. Mike German hefyd yw'r Gweinidog dros Gymru Tramor, ac mae mewn sefyllfa ardderchog i godi ymwybyddiaeth fyd-eang o safiad gochelgar y Cynulliad ynglyn â chnydau GM (BLWCH 6).

## Casgliad

Mae ymgyrchu gan Gyfeillion y Ddaear Cymru a grwpiau eraill yng Nghymru wedi llwyddo i ddylanwadu ar bolisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd wedi sicrhau Amgylchedd Cymru'n Rhudd o GM, am y tro o leiaf.

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y grym i rwystro tyfiant pellach o gnydau GM yng Nghymru nes y gall fod yn hyderus nad yw'r cnydau hyn yn gallu achosi niwed i iechyd dynol na'r amgylchedd. Bydd Cyfeillion y Ddaear Cymru'n parhau i ymgyrchu nes y bydd y Cynulliad yn defnyddio yr holl rymoedd sydd ganddo i ddiogelu pobl, amgylchedd ac economi gwledig Cymru.

## Beth allaf i ei wneud?

**Cysylltu â Chyfeillion y Ddaear Cymru i ymuno â Rhwydwaith Cenedlaethol o bobl sy'n barod i gymryd camau gwleidyddol cyflym i gadw cnydau GM allan o Gymru. Mae pwysau gan etholwyr wedi bod yn hanfodol i gadw Aelodau'r Cynulliad ar flaenau'u traed drwy'r ymgyrch.**

## Pwyso am newid

Mae angen i'r Cynulliad wybod bod y cyhoedd yng Nghymru'n cefnogi ei safle ar gnydau GM. Mae ganddo'r grym i gryfhau ei safiad cyfyngu fwyfwy. Ysgrifennwch at eich Aelod Cynulliad, yn gofyn iddynt:

- **Wrthod unrhyw geisiadau i farchnata cnydau GM yn y DG.**

Bu ChardonLL yn agos i gael ei gynnwys ar y Rhestr Hadau Cenedlaethol, ac felly gallai fod wedi cael ei farchnata yn y DG. Fodd bynnag, perswadiodd Cyfeillion y Ddaear y cyhoedd i wrthwynebu ac i alw am Wrandawiad (Gwrandawiad Rhestru Hadau). Archwiliodd y gwrandawiad cyhoeddus yma lawer iawn o'r profion gwyddonol a wnaed ar ChardonLL, gan ddatgelu diffygion sylweddol yn y profion diogelwch.

- **Gwrthod unrhyw ymdrechion gan Lywodraeth y DG i gyfyngu ar hawliau'r cyhoedd i wrthwynebu cnydau GM rhag mynd ar y farchnad.**

Mae dogfen a ddaeth yn hysbys yn nodi bod swyddogion Llywodraeth y DG yn ceisio gwneud yn union hynny, ond i basio'r newidiadau angenrheidiol yn y rheoliadau rhaid cael caniatâd y Cynulliad. Cred Cyfeillion y Ddaear Cymru bod hyn yn digwydd i rwystro digwyddiadau fel y Gwrandawiad Hadau rhag digwydd yn y modd y gwelwyd yn ddiweddar.

**Y mwyaf o bobl fydd yn ymuno, y mwyaf tebygol yr ydym i ennill camau nesaf yr ymgyrch.**

- **Sicrhau bod y Cynulliad yn defnyddio ei rymoedd i wahardd plannu cnydau GM yng Nghymru.**

Mae gan y Cynulliad y grymoedd i wneud hyn os yw'n credu nad oes 'risg i iechyd dynol na'r amgylchedd' gan ddefnyddio Erthygl 23 o'r Cyfarwyddyd GMO newydd 2001/18/EC. Y Cyfarwyddyd newydd yma yw'r Cyfarwyddyd Ewropeaidd 90/220/EC a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

- **i ofyn i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhau i'r Amgylchedd (ACRE) am farn ar holl gnydau GM sydd â thrwydded ar hyn o bryd, o dan amodau polisi cyfyngu'r Cynulliad.**

- **Ymchwilio i sefydlu ACRE Cymru i roi cyngor i'r Cynulliad.**

Cred Cyfeillion y Ddaear Cymru na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn rhwymedig i dderbyn ei gyngor ar y materion hyn gan gorff a rennir rhwng Llywodraethau ar draws y DG. Gallai

## Cronoleg Ymgyrch Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM

Ochr yn ochr â'r galwad am bolisi cyfyngu, roedd yr ymgyrch yn cynnwys digwyddiadau a materion ehangach megis gwrthwynebu Gwerthusiadau Fferm Gyfan yng Nghymru ac i fasnacheiddiad amrywiaeth o hadau GM (ChardonLL). Disgrifir y rhain yn fyr isod.

**11eg Mawrth 1999 Treial GM yn Nhrefynwy** – Dau safle treial GM ger LLanishen wedi eu cyhoeddi yn y Monmouthshire Beacon. Cyfeillion y Ddaear Cymru yn gwrthwynebu ar unwaith ar sail y gallai'r ddau gnwd had olew rêp (gyda gwahanol addasiadau genetig) traws beillio gyda pherthnasau gwyllt. Yr AS lleol yn trafod y pryderon, gan gynnwys rhai ei etholaeth ei hun, gyda'r ffermwr sy'n ddiweddarach yn tynnu'n ôl o'r treial.

**22ain Gorffennaf 199 Lansio'r Ymgyrch** – yn y Sioe Amaethyddiaeth Frenhinol. Llythyr yn y Western Mail wedi ei arwyddo gan nifer o sefydliadau a ffigyrau blaenllaw yn cynnwys: Nick Bourne AC, arweinydd Ceidwadwyr Cymru, Cynulliad Cenedlaethol; Dr Neil Caldwell, Lindsay Collin, Rachel's Organic Dairy; Gilli Davies, arbenigwraig bwyd o Gymru; Ron Davies AC AS; John Davis, Plaid Werdd Cymru; Huw Edwards, AS; Sue Essex AC; Michael German, arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Cynulliad Cenedlaethol; Dr Madeleine Havard, Cadeirydd, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru; Elenid Jones, Cymorth Cristnogol; Simon Newcombe, Cogydd Cenedlaethol Cymru 1998; Bob Parry, Llywydd, Undeb Ffermwyr Cymru; Morgan Parry, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru; Peter Segger, Organic Farm Foods (Wales Ltd) Llanbedr Pont Steffan; Dr Tim Stowe, Cyfarwyddwr, RSPB Cymru; Malcolm Walker, Iceland Frozen Foods, Glannau Dyfrdwy; Dafydd Wigley AC AS, Llywydd Plaid Cymru.

**2il Awst 1999 Cynulliad Rhydd o GM** – Cyfeillion y Ddaear Cymru yn datgelu bod Aelodau'r Cynulliad yn bwyta Bwyd sy'n Rhydd o GM, diolch i bolisi eu harlwywyr.

**6ed Medi 1999 Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM** – barn gyfreithiol wedi ei chyflwyno i'r Cynulliad. Mae hon yn nodi bod gan y Cynulliad rymoedd yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i rwystro rhyddhau cnydau GM i amgylchedd Cymru oni bai eu bod yn hyderus nad yw eu rhyddhau 'yn gallu achosi niwed'. Llawer cryfach na dim ond 'diogel'.

**17eg Chwefror 2000 hadau GM cyntaf i ddod at farchnad y DG** – Cyfeillion y Ddaear Cymru yn dod i ddeall fod angen i'r Cynulliad Benderfynu i roi cymeradwyaeth amodol neu beidio i india corn GM, ChardonLL, i gael ei ychwanegu i'r Rhestr Hadau Cenedlaethol. Unwaith bod math o hedyn ar y rhestr, yna gall gael ei farchnata yn unrhyw fan yn y DG. Cysylltu â swyddfa'r Gweinidog Amaeth, sydd ddim yn ymwybodol o'r penderfyniad arfaethedig yma, yn ogystal â holl aelodau'r Pwyllgor Amaeth.

**24ain Chwefror 2000 Datganiad o Farn wedi ei gyflwyno** – gan Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Mike German, yn datgan "Mae'r Cynulliad hwn yn gwrthwynebu ychwanegu india corn T25 sydd wedi ei addasu'n enetig i'r Rhestr Hadau Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn credu y dylid ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd i weld sut y gellir gwahardd gwerthiant a defnydd yr hadau hyn yng Nghymru heb dorri rheolau'r Undeb Ewropeaidd." Anogir AC eraill i arwyddo mewn cefnogaeth.

**1af Mawrth 2000 hedyn GM cyntaf i ddod at y**

**BLWCH 7** "Rydym o'r farn ei fod yn gamarweiniol [i ACRE i] gyfeirio at y newidiadau mewn perthynas â gweithdrefnau rheoli risg . . . fel eglurhad yn unig . . . mae ystod y gofynion newydd wedi eu hehangu a'u hymestyn yn sylweddol o'i gymharu â'r gofynion gwreiddiol." Dr Mark Avery, Cyfarwyddwr Cadwraeth, RSPB, yn cyfeirio at ehangiad yr asesiadau diogelwch oedd eu hangen gan y Gyfarwyddyd GMO yn 1998, yn y Gwrandawiad Rhestru Hadau ar ChardonLL, un o nifer o feirniadaethau.

**farchnad: gohirio penderfyniad** – Gohirio penderfyniad Rhestru Amodol ar gyfer ChardonLL (india corn porthi GM) am fis tra bod Cyfeillion y Ddaear Cymru yn bombardio'r Cynulliad gyda rhesymau gwyddonol a chyfreithiol dros wrthod Rhestru'r hedyn (gan gynnwys nad oedd yr india corn wedi ei brofi am ei effeithiau ar ddynion, iechyd anifeiliaid neu'r pridd). Canlyniad hyn yw mwyafrif y Pwyllgor Amaeth yn argymell bod y Gweinidog Amaeth ar y pryd, Christine Gwyther, yn peidio Rhestru'r Hedyn. Ms Gwyther yn caniatáu cymeradwyaeth amodol ar 29ain o Fawrth, ar sail cyngor camarweiniol gan brif wyddonwyr y Llywodraeth (mae'r dadansoddiad yma wedi ei gadarnhau ers hynny gan yr RSPB yn y Gwrandawiad Rhestru Hadau ynghylch ChardonLL (BLWCH 7))

**9fed Mawrth** – cadarnhau grymoedd y Cynulliad Barn gyfreithiol annibynnol wedi ei chomisiynu gan Gyfeillion y Ddaear yn cadarnhau grymoedd y Cynulliad i rwystro rhyddhau cnydau GM. Cyflwynwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Amaeth, Rhodri Glyn Thomas AC.

**28ain Ebrill 2000 treial GM Sir Fflint** – Cyfeillion y Ddaear Cymru'n datgelu bod treial india corn GM (ChardonLL fel mae'n digwydd) wedi ei gynllunio ar gyfer Sealand yn Sir Fflint, Cymru. Roedd swyddogion Llywodraeth y DG wedi awdurdodi'r treial gan feddwl ei fod yn Swydd Gaer, Lloegr. Pan ddatgelwyd y gwall, dywedodd y swyddogion y byddent yn tynnu'r treial yn ei ôl, ni wnaethant. Ni ymgynghorwyd gyda'r Cynulliad na'r bobl leol, hefyd roedd y Cynulliad ar gau ar y pryd ac y byddai'r aelodau yn annhebygol o fod yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd. Dywedodd Aventis y byddai'r tynnu'r treial yn ei ôl pe dywedid wrthynt am wneud hynny gan swyddogion Llywodraeth y DG. Nid yw hyn yn digwydd.

**10fed Mai 2000 Treial GM Sir Fflint** - Ms Gwyther yn gwneud datganiad yn y Cynulliad na ddylai'r treial fynd rhagddo nes bod ymgynghoriad gyda phobl leol wedi digwydd. ChardonLL yn cael ei blannu y diwrnod hwnnw.

**23ain Mai 2000 Deiseb** – Deiseb wedi ei harwyddo gan 10,700 o bobl yn cael ei chyflwyno i Aelodau'r Cynulliad, yn galw am Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM. Cododd y ffigur hwn i dros 11,000 gyda mwy o ddeisebau yn cael eu hanfon yn ddiweddarach.

**24ain Mai 2000 Polisi GM** – Y Cynulliad cyfan yn rhoi cefnogaeth unfrydol i gynnig traws bleidiol am Amgylchedd Cymru'n Rhydd o GM, yn seiliedig ar y farn gyfreithiol annibynnol a gomisiynwyd gan Gyfeillion y Ddaear. Hyn yn golygu bod yr holl ryddhau arbrofol o gnydau GM yng Nghymru'n annhebygol o gael cymeradwyaeth.

**22ain Mehefin 2000 Treial GM yn gyfreithlon?** – Cyfreithlondeb treial Sir Fflint yn dal yn amheus. Barn Ms Gwyther oedd bod y treial yn gyfreithlon, eto pan archwilir y cyngor fe welir problemau. Cyfreithwyr annibynnol wedi eu comisiynu gan Gyfeillion y Ddaear yn codi pedwar marc cwestiwn cyfreithiol dros y cyngor a roddwyd i Ms Gwyther – yn dweud bod gwybodaeth annigonol yn y cyngor hwnnw i ddweud yn derfynol os oedd y treial yn gyfreithiol neu beidio. Carwyn Jones, y Gweinidog Amaeth newydd bryd hynny, yn gwrthod sicrhau bod y gyfraith wedi cael ei dilyn drwy ddweud fod y wybodaeth yn 'fasnachol gyfrinachol'. Felly, nid yw'r Cynulliad yn gwybod i sicrwydd hyd yma.

**28ain Mehefin Cyfarfod GM** – Cyfeillion y Ddaear Cymru ac Aelodau Cynulliad y gwrthbleidiau yn cyfarfod â Ms Gwyther a'i swyddogion er mwyn gweithio ffordd i weithredu Polisi GM y Cynulliad yn y modd mwyaf effeithiol. Ms Gwyther yn cadarnhau ei bod am weithredu'r polisi mwyaf cyfyng posib. Y cyfarfod yn gorffen gyda datganiad ar y cyd, yn cynnwys sawl casgliad y cytunwyd arnynt, ac yn eu plith a) cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn Sealand, Sir Fflint erbyn diwedd fis Gorffennaf, b)

ACRE i gyflwyno ei gyngor ar gnydau GM i'r Cynulliad mewn llawer mwy o fanylder.

**19eg Gorffennaf 2000 Datganiad ar y cyd yn gwrthwynebu treial Sir Fflint** – gyda 41 o sefydliadau ac unigolion blaenllaw, wedi ei gydlynu gan Gyfeillion y Ddaear Cymru

**14eg Medi 2000 Treial GM Sir Fflint** – Y Cynulliad yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yng Nghei Connah, Sir Fflint, saith wythnos wedi iddo addo gwneud hynny. Roedd Ms Gwyther wedi gwneud ymroddiad cadarn i gynnal un cyn diwedd Gorffennaf. Er bod Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi trefnu dyddiad a lleoliad ar gyfer ei gyfarfod ei hun, roedd yn rhaid iddo ganslo ar y 19eg o Orffennaf gan fod yr holl wleidyddion a wahoddwyd i siarad wedi gwrthod, ar y sail y byddant yn siarad yng nghyfarfod cyhoeddus y Cynulliad. Gwan iawn fu'r hysbysebu ar gyfer y cyfarfod hwn, ychydig iawn oedd yn ymwybodol ei fod yn digwydd. Byddai cyfarfod Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi rhoi cyfle i bobl ddod wyneb yn wyneb â'u cynrychiolwyr. Nid oedd gwleidyddion yng nghyfarfod cyhoeddus y Cynulliad, er iddynt ddweud y byddant, dim ond swyddogion.

**16eg Hydref 2000 Cyhoeddi Partneriaeth Llywodraeth** – Dau AC Democratiaid Rhyddfrydol yn ymuno â'r Cabinet mewn llywodraeth glymblaid, yn cynnwys yr Arweinydd, Mike German AC. Mae hyn nawr yn rhoi mwyafrif i'r llywodraeth glymblaid yn y Cynulliad.

**19eg Hydref 2000 Drafft Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiaethau) 2000** – Mwyafrif o AC yn gwrthod Rheoliadau Rhestru Hadau diffygiol, fyddai, ym marn Cyfeillion y Ddaear Cymru, yn cyfyngu ar rymoedd y Cynulliad i wrthod amrywiaethau o hadau o'r Rhestr Hadau Cenedlaethol am resymau yn ymwneud ag effeithiau niweidiol ar iechyd dynol, anifeiliaid neu blanhigion. Cafodd y penderfyniad ei ohirio am sawl wythnos. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r penderfyniad nes bod y glymblaid wedi ei ffurfio fel y gallai'r Llywodraeth glymblaid mwyafrifiol newydd wthio'r rheoliadau trwyddo, gan ei bod dan bwysau gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Gwybodaeth o ffynhonnell sydd wedi ei lleoli'n dda yn datgan y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn pleidleisio o blaid y rheoliadau, fodd bynnag, wedi ymdrech lobio ddwys gan staff, cefnogwyr ac aelodau grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear, rydym yn eu perswadio i newid eu meddyliau. Cafodd y rheoliadau eu trechu yn bennaf oherwydd bod meinciau cefn Llafur wedi mynnu pleidlais rydd, ac yna gallai'r Democratiaid Rhyddfrydol nad oedd yn y cabinet bleidleisio fel ag y byddent wedi, h.y. yn erbyn. Pleidleisiodd y ddau AC Democrataidd Rhyddfrydol yn y Cabinet o blaid y rheoliadau diffygion, fel yr ofnwyd.

**3ydd Ebrill 2001 Treialon Sir Benfro a Sir Fflint** – Cyhoeddwyd tri treial india corn GM ChardonLL ar gyfer Cymru. Roedd y treial yn Sir Fflint unwaith eto yn Sealand, a'r ddau arall wedi eu cynllunio ar gyfer Mathry yn Sir Benfro.

**16eg Ebrill 2001 Cyfarfod Cyhoeddus ym Mathry** – Cymunedau lleol yn Sir Benfro yn galw cyfarfod cyhoeddus i drafod y ddau dreial GM. Cyfeillion y Ddaear Cymru, fel un o'r siaradwyr, yn tynnu sylw at ymgyrchoedd cymunedol llwyddiannus blaenorol yn erbyn treialon GM. Llwyddodd yr ymgyrchoedd hyn, yn ôl pob son, oherwydd eu bod wedi gweithio'n agos gyda'r ffermwyr oedd ynghlwm â'r treialon a'u perswadio i dynnu'n ôl o'r treialon eu hunain.

**8fed Mai 2001 Treialon Mathry yn cael eu tynnu'n ôl** – Y ffermwr oedd yn bwriadu tyfu india corn GM ar ei dir yn tynnu'n ôl o ganlyniad i wrthwynebiad lleol dwys, wedi ei gydlynu gan coalisiwn, o ffermwyr lleol, amgylcheddwyr ac unigolion eraill oedd yn bryderus, o'r enw Cymru Rhydd o GM. Roedd y gwrthwynebiad gymaint fel na allai'r ffermwr ddod o hyd i neb yn lleol i blannu'r hadau yn y ddaear.

**14eg Gorffennaf 2001 Gwrthdystiad yn erbyn treial Sir Fflint** – cannoedd o bobl yn ymgasglu i ddangos eu gwrthwynebiad i'r india corn GM yn Sealand, gyda grwp o'r enw 'Custodians of the Land' yn cydlynu. Er ceisio perswadio'r ffermwr i beidio plannu, aeth yn ei flaen i wneud hynny. Pobl leol yn gandryll, yn mynd i mewn i'r cau ac yn malurio rhan o'r cnwd.

**15fed Mai 2001 Gorchymyn Gwaharddiad Amgylcheddol** – Carwyn Jones y Gweinidog Amaeth yn gosod Gorchymyn Gwaharddiad Amgylcheddol ar Aventis, yn gosod 'pellter ynysu' o 200m rhwng india corn GM a chnydau india corn eraill. Mae hyn i ddiogelu india corn nad sy'n GM rhag cael ei wenwyno gan baill GM. Cyfeillion yn Ddaear Cymru yn nodi y byddai traws beillio ar lefelau uwch na 0.1% o wenwyno yn 'debygol yn hytrach na'n ddigwyddiad eithriadol' ar bewllter o 200m, gan y gall paill india corn deithio hyd at 800m. Symudiad y Cynulliad yn agor trafodaeth yn Ewrop ynglyn ag os y gellid tyfu cnydau confensiynol ac organig yn yr un ardaloedd a chnydau GM a pharau i gadw eu statws rhydd o GM, h.y. drwy fod yn gonfensiynol neu'n organig.

**14eg Mawrth 2002 Dim treialon GM yng Nghymru!** – Llywodraeth y DG yn cyhoeddi safleoedd plannu treialon GM eleni, a dim yng Nghymru. Cyfeillion y Ddaear Cymru a'u grwpiau lleol, ac ymgyrchwyr eraill a chymunedau ledled Cymru yn ymlawenhau o glywed y newyddion.

## Ysgrifennwyd y brîff yma gan Raoul Bhambral, ar gyfer Cyfeillion y Ddaear Cymru

## Am ragor o wybodaeth:

www.cyddcymru.co.uk/ymgyrchoedd/bwyd_go_awn / www.foe.co.uk/campaigns/real_food